# CYFARFOD CYNGOR ARBENNIG

## COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 31AIN GORFFENNAF 2018 AM 5.00 PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M.Adams - Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E.M. Aldworth, C. Andrews, J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, K. Dawson, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Miss E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, A. Higgs, A. Hussey, M.P. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B.A. Jones, G. Kirby, Mrs P. Marsden, Mrs G.D. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J.E. Roberts, Mrs M.E. Sargent, G. Simmonds, Mrs E. Stenner, J. Taylor, A. Whitcombe, R. Whiting, L.G. Whittle, W. Williams, B. Zaplatynski

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), N. Scammell (Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid – Cyllid Corfforaethol), L. Lane (Swyddog Monitro Dros Dro) a R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. TREFNIADAU FFILMIO GWE-GAMERA A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud ar agenda'r noson drwy'r system bleidleisio electronig.

### 2. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr A. Angel, P.J. Bevan, N. Dix, D. Havard, S. Kent, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, B. Miles, S. Morgan, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, J. Scriven, S. Skivens, C. Thomas a T.J. Williams.

### 3. GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Galwodd y Maer ar y Cynghorydd D.T. Davies i siarad â'r Cyngor, a amlygodd y tanau

glaswellt a mynydd diweddaraf ar draws y fwrdeistref sirol a'r llwyth gwaith uwch ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (y Gwasanaeth). Canmolodd y Cynghorydd Davies staff tân am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb wrth ddelio â'r digwyddiadau diweddar hyn, a chyfeiriodd hefyd at yr ymateb gan y cyhoedd ac ysbryd cymunedol anhygoel, a gwelwyd casgliadau mawr o gyflenwadau bwyd a diod i'r criwiau ymladd tân ar y safle. Gofynnodd fod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at y Prif Swyddog Tân yn y Gwasanaeth ar ran y Cyngor i ddiolch i'r staff am eu hymdrechion.

Ategodd yr aelodau'r teimladau hyn a mynegodd eu diolch am waith diflino staff y Gwasanaeth yn yr amgylchiadau anodd iawn hyn o ystyried y tywydd poeth diweddar. Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd addysg wrth hyrwyddo peryglon tân bwriadol ac awgrymodd y gallai'r Swyddogion perthnasol gysylltu â'r Gwasanaeth ar y mater hwn.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd yn unfrydol y dylid anfon llythyr o ddiolch i'r Gwasanaeth er mwyn cyfleu diolch y Cyngor i'r holl staff am eu hymdrechion wrth ddelio â'r tanau diweddar.

## 4. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad canlynol.

## 5. DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER 2017/18

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'r Datganiadau Ariannol 2017/18 a archwiliwyd, er mwyn sicrhau y gellid llofnodi'r cyfrifon gan Swyddfa Archwilio Cymru erbyn y dyddiad cau statudol sef 30 Medi 2018. Hysbyswyd yr Aelodau na all y Cyngor newid unrhyw beth yn realistig yn y Datganiadau Ariannol, gan fod unrhyw newidiadau yn gofyn am gymeradwyaeth yr Archwilydd Allanol.

Hysbysodd Steve Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro) yr Aelodau yn y cyfarfod ar 24 Gorffennaf 2018, cyflwynwyd y Pwyllgor Archwiliad gydag Adroddiad Allanol y Safon Ryngwladol ar Archwilio 260 ar yr archwiliad o'r Datganiadau Cyllidol 2017/18. Nododd adroddiad yr Archwilydd (fel y'i hatodir yn Atodiad 1) mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd rhoi barn archwilio ddiamod ar Ddatganiadau Ariannol 2017/18 yn seiliedig ar y gwaith archwilio a gwblhawyd hyd yn hyn.

Cyfeiriodd Mr Harris yr Aelodau at Atodiad 3 o Adroddiad yr Archwilydd sy'n rhoi manylion am gamddatganiadau a nodwyd yn ystod y broses archwilio sydd wedi cael eu cywiro wedyn gan y rheolwyr. Cadarnhaodd nad oedd yr addasiadau hyn wedi cael effaith ar falansau arian neu'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r Datganiadau Ariannol 2017/18 a atodwyd yn Atodiad 2, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 24 Gorffennaf 2018, yn ymgorffori'r holl gamddatganiadau wedi'i gywiro, ac mae Atodiad 4 Adroddiad yr Archwilydd yn nodi'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith archwiliad ariannol 2017/18, ynghyd â'r ymatebion rheoli.

Hysbyswyd yr aelodau hefyd, yn y cyfarfod ar 27 Mehefin 2018, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar yr Alldro Dros Dro ar gyfer 2017/18, a oedd yn cynnwys manylion symudiadau ar falans y Gronfa Gyffredinol o 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018 ynghyd ag ymrwymiadau cytunedig ar gyfer 2018/19. Roedd rhagolwg balans y Gronfa Gyffredinol fel y'i hysbyswyd i'r Cyngor ar 22 Chwefror 2018 yn £10miliwn, ac mae'r sefyllfa ddiweddaraf yn weddill rhagamcanedig o £11.8miliwn (cynnydd o £1.8miliwn). Nodwyd bod y Swyddog Adran 151

fel rheol yn argymell gweddill o £10miliwn o leiaf o’r Gronfa Gyffredinol (tua 3% o'r gyllideb refeniw net).

Atgoffwyd y Cyngor y bydd angen arbedion o tua £34miliwn ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd 2019/20 i 2022/23, sy'n amlwg yn heriol iawn ac mae'n anochel y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn.  Gyda hyn mewn golwg, cefnogodd y Cabinet argymhelliad i'r Cyngor drosglwyddo £1.8m o'r Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn a Chlustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer costau untro sy'n gysylltiedig â chyflawni arbedion i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Gofynnwyd am eglurhad ar fanylion y costau untro penodol drwy drosglwyddo’r gronfa. Esboniodd y swyddogion y bydd hyn yn cynnwys rhywfaint o gymorth untro ar gyfer cynilion rhan-flwyddyn, cynigion Buddsoddi i Arbed i gefnogi newidiadau i'r gwasanaeth a fydd yn darparu arbedion rheolaidd a chostau rheoli swyddi gwag.  Mewn ymateb i ymholiad ar y prif heriau ariannol ar gyfer 2019/20 a'r gwasanaethau y gellid eu rhesymoli, dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn mynd yn fwyfwy heriol i ddarparu'r holl wasanaethau o ystyried lefel yr arbedion sy'n ofynnol ar gyfer 2019/20 a bod hynny'n golygu y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch darparu gwasanaethau dewisol.  Pwysleisiwyd bod yr holl gyllidebau a gwariant y gwasanaeth yn cael eu harchwilio'n drylwyr i benderfynu lle gellir gwneud arbedion posibl.   Yn ystod y ddadl, mynegodd yr Aelodau hefyd yr angen am rybudd wrth ystyried gostwng neu gael gwared ar wasanaethau dewisol a chyfeiriodd at yr effaith bosibl y gallai hyn ei gael ar drigolion a'r effaith gynyddol y gall hyn ei gael ar wasanaethau statudol.

Cyfeiriwyd at gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 24 Gorffennaf 2018 a gofynnwyd i'r Cyngor nodi bod y Pwyllgor wedi cefnogi cymeradwyaeth y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2017/18. Codwyd ymholiad mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn y Cyngor a gofynnodd yr Aelod am ymateb i'r mater gael ei ddarparu iddo yn dilyn y cyfarfod.  Cyfeiriwyd at fenthyca sy'n gysylltiedig â'r Cyfrif Refeniw Tai ac mewn ymateb i ymholiad ar lefel y llog cyfansawdd ac os oedd y taliadau hyn wedi'u cynnwys yn y cynllun busnes a dderbyniwyd gan y Cabinet, cadarnhawyd mai dyna'r achos a bod hyn wedi'i gynnwys fel gwariant Cyfrif Refeniw Tai a'i glymu â'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen SATC.

Mewn ymateb i ymholiad ar gynnydd mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn derbyn adroddiad diweddaru blynyddol ar gronfeydd wrth gefn sy'n caniatáu i'r gweddillion gael eu harchwilio.  Eglurwyd y bydd gwybodaeth bellach am yr holl gronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal yn cael ei rannu yn Seminar Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Aelodau ym mis Tachwedd 2018 a bydd yn caniatáu i'r Aelodau ofyn cwestiynau pellach yn hyn o beth. Mae'r holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu'n fanwl a gellir nodi unrhyw un a allai fod yn agored i'w rhyddhau am wariant untro, h.y. bydd cyfalaf, yn cael ei gynnwys yn adroddiad y gyllideb a gyflwynir i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019.

Wrth gyfeirio at y cynnig i drosglwyddo arian o'r Gronfa Gyffredinol i mewn i Gronfa Wrth Gefn a Chlustnodwyd, gofynnodd Aelod a oes digon o arian yn weddill i gwrdd ag unrhyw ddarpariaeth ariannol arall a allai fod yn ofynnol ar gyfer ymchwiliad parhaus yr Uwch Swyddog.  Esboniodd swyddogion fod hyn yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn heblaw'r Gronfa Gyffredinol (fel y Gronfa Tanwariant Wrth Gefn a Gedwir Gwasanaethau Corfforaethol) ac nad oes pryderon o ran cwrdd ag unrhyw gostau pellach.  Pwysleisiwyd hefyd i'r Aelodau na ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn i lenwi'r bylchau mewn cyllidebau, gan mai dim ond i gynorthwyo costau a gwariant untro y gellir eu defnyddio, ac na ellir eu defnyddio i wrthbwyso cynigion arbedion neu i lenwi'r bwlch ar gyfer arbedion refeniw rheolaidd.

Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad: -

(i) cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol archwiliedig terfynol ar gyfer 2017/18;

(ii) cymeradwyo trosglwyddo £1.8miliwn o'r Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn a Chlustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer costau untro sy'n gysylltiedig â chyflawni arbedion i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Fe wnaeth yr Aelodau gofnodi eu gwerthfawrogiad i bawb sy'n ymwneud â pharatoi Datganiadau Ariannol 2017/18 a gofyn bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at staff y Cyngor yn hyn o beth.

Terfynwyd y cyfarfod am 5.35 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2018, ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

____________________________

MAER